Croeso i Ddosbarth y Cychod

Dewch i gael cip ar beth sy'n digwydd yn ein dosbarth tymor hyn:

Eleni mae yna 22 o blant brwdfrydig yn ein dosbarth; 10 o flwyddyn 6, 6 o flwyddyn 5 a 6 o flwyddyn 4. Ein hathro dosbarth yw Mr Thomas ac ein cynorthwyydd yw Miss Davies.

Iaith

Byddwn yn canolbwyntio ar ysgrifennu nifer o destunau gwahanol yn ystod y flwyddyn. Rhaid sicrhau bod eich plentyn yn darllen rhywbeth BOB NOS. Mae llyfrau darllen Saesneg a Chymraeg yn cael eu newid drwy'r wythnos felly mae'n hanfodol bod eich plentyn yn cofio dod â'u llyfrau a chofnod darllen i'r ysgol bob dydd.

Rhifedd



Byddwn yn datblygu sgiliau rhif, siâp, trin data a rhesymu yn ystod flwyddyn mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Ceisiwch sicrhau bod eich plentyn yn parhau i ddysgu tablau trwy ddefnyddio TT Rock stars neu J2blast ar HWB.

Thema

Ein thema y tymor hwn yw'r 'Celtiaid'

Bydd ein thema yn canolbwyntio ar Hanes ac yn rhoi cyfle i'r disgyblion i ddysgu am fywyd yng Nghymru yn yr Oes Haearn, sut oedd bywyd yn wahanol i blant yn y cyfnod a chymharu newid mewn cartrefi, bwyd a hamdden ar draws y cyfnodau.

Ymarfer Corff

Bydd ymarfer corff ar ddydd Llun.
Mae angen gwisgo dillad addas ar gyfer y sesiwn yma. Bydd angen trowsus ymarfer corff hir / siorts du, crys-t lliwiau tŷ ac esgidiau rhedeg.

Tasgau Dysgu Adref

Mi fydd tasgau dysgu adref yn cael ei osod ar Ddydd Gwener a disgwylir i'r disgyblion eu cyflawni erbyn Dydd Mercher.